


Celt
5102
1.30

Y Ffordd i Gaffael Cyfoeth



Celt 5102.1.30

*

Harvard College Library




FROM THE BRIGHT LEGACY

One half the income from this Legacy, which was received in 1880 under the will of

JONATHAN BROWN BRIGHT
of Waltham, Massachusetts, is to be expended for books for the College Library. The other half of the income is devoted to scholarships in Harvard University for the benefit of descendants of

HENRY BRIGHT, JR.,
who died at Watertown, Massachusetts, in 1686. In the absence of such descendants, other persons are eligible to the scholarships. The will requires that this announcement shall be made in every book added to the Library under its provisions.





Cover
Y
FFORDD I GAFFAEL CYFOETH;

SEU,

RHISIAT DRUAN:

YF DDIWYGIERIG GAN

DOCTOR FRANKLIN,

YR EDWIG ATRGOSTEDD,

STRAS YCHWARRIAD,

Y MODD I WNEUTHUR LLAWER O YCHYDIG,

GAN B. SHORT.

AC A DYSLEITHIYD IDD Y GYMRAEG

GAN THOMAS ROBERTS,
LLWYNRHUDOL.

LLUNDAIN:

ARGRAFFEDIG DROS Y CYFIEITHYDD.

1839.

500
F.Y

Ways to build in
state



BENJ.^N FRANKLIN L.L.D.

The legislator of America; Died at Philadelphia, aged 84.

London, William Dorton, 58, Holborn Hill 1822.

Y

FFORDD I GAFFAEL CYFOETH;

NEU,

RHISIAT DRUAN:

YN DDIWYGIEDIG GAN

DOCTOR FRANKLIN,

YR ENWOG ATHRONYDD;

GYDAG YCHWANEGIAD,

Y MODD I WNEUTHUR LLAWER O YCHYDIG,

GAN B. SHORT.

AC A GYFIEITHIWDYD IDD Y GYMRANG
GAN THOMAS ROBERTS,
LLWYNRHUDOL.

LLUNDAIN:
ARGRAFFEDIG DROS Y CYFIEITHYDD.

1839.

✓ Celt 5102.1.30

~~*~~



Bright fund

LLUNDAIN:
Argraffwyd gan A. SPOTTISWOODE,
New-Street-Square.

RHAGSYLWAD.

DYMUONIAD Dr. Franklin ydoedd casglu i'r un màn yr holl ddywediadau ar y testynau canlynol, y rhai a adawodd efe heb eu cyhoeddi yn ystod yr amser y cyhoeddai ei Amseroniau * a elwid "*Poor Richard*," neu, "Rhisiat Druan" yn Gymraeg; ac arweiniwyd i mewn i'r amcan hwn. Oddiyma yr enwir Rhisiat Druan mor fynych, a dywedir ei fod cystal a'r enw cyntefig.

Er hyny y tarawiad diddanol yn y Gwahanran penderfynol o'r cyfarchiad hwn, Rhisiat (Saunders) Druan a brofodd yn America ei fod e' yn bregethwr anghyffredin. Ac a fydd i ni ein brodyr y Cymry wrthod synwyr da a gwy-

* Almanacau.

bodaeth gwaredigol, o herwydd iddo ddyfod o'r tu draw i'r dŵr?

Addaswyd y llyfyr bychan hwn at ddull a môdd y Cymry yn siarad mewn iaith rwydd a hawdd ei dŷall.

Cyfnewidiwyd ychydig mewn rhai pethau, ond nid dim i gyfnewid y synwyr.

Argraffydd oedd Dr. Franklin, ac Athronydd * enwog iawn a dysgiedig, er iddo yn ei ieuengtid, ac yn nechreud ei oruchwyliath, drolio berfa olwyn † o'i flaen yn llawn o lyfrau bychain er addysg a difyrwch i blant ac ereill, ac er ynnill ei fara, hŷd heolydd New York a Philadelphia; ac wedi hyny efe yn raddol a aeth yn wr o'r cymmeriad mwyaf yn Unol Daleithiau America; ac a fu yn Aelod tra enwog o Senedd Pennsylvania ‡, ac a ddaeth yma i Loegyrr yn Negesydd ¶ o'r America,

* Philosophydd.

† *A Wheelbarrow.*

‡ *Member of the Legislature of Pennsylvania.*

¶ *Envoy Plenipotentiary.* Neu Genadwr Llawngalluog.

cystal ag i Ffrainc; efe a fu yn wr buddiol iawn i'r wlad hon, i Ffrainc, America, a'r byd yn gyffredinol!!! Efe a anwyd yn y flwyddyn 1706, yn Lloegyr Newydd (*New England*), yn America; a bu farw yn Philadelphia yn y flwyddyn 1790, ei oed oedd 84.

Cyn diweddu y rhagsylwad hwn, y mae y cyfieithydd yn gobeithio y bydd y beirdd hawddgar cystal ag esgusodi ei anwybodaeth a'i anfedrusrwydd mewn barddoniaeth, canys nid yw yn ei ystyr-ied ei hun yn ddim o fardd, ac na fu erioed yn perchen un grâdd o'r Awen ragorol honò ag sydd angenrheidiol i drin barddoniaeth Cymreig, ond efe a gadwodd at wir ystyr a synwyr yr awdwr enwog, hŷd y gallai ei alluoedd ei arwein e'.

Llundain. Mai 1. 1839.

Y

TRI ENGLYN HYN

GAN MR. ROBERT OWEN.

A oes yn awr neb synwryol — y'ngghyrhaedd
Cynghorion rhagorol?
Aed a gwnaed yn dæg yn ol
Hyn o linau 'n olynol.

Buan y gwel, heb un gwall, — o'u dilyn,
Fod elw anhyball,
Iw gynnydd fe'i cenfydd call —
Di gynghor ni's dwg a'nghall.

Os gorwedd mewn seguryd — a fyn neb
Ni fwynâ ddedwyddyd;
Diog ni fedd ond gwan fyd;
Elw a ddaw i law ddiwyd!

CYFARCHIAD
DR. FRANKLIN .

AT XI

GYDWLADWYR,

GYDAG YCHYDIG O GYFNEWIDIAD, I'W GYMHWYSGO
AT WASANAETH Y CYMRY.

DDARLLENYDD MWYN,

CLYWAIS nad oes dim yn rhoddi i aw-
dwr gymmaint o hyfrydwch, a chlywed
ei waith yn cael ei adrodd gan ereill yn
barchus.

Barnwch, y prŷd hyny, gymmaint
ymboddlonid gan ddygwyddiad, ag wŷf
yn myned i'w adrodd i chwi.

Rhoddais orphwysiad i'm ceffyl, yn
ddiweddar, lle yr oedd nifer mawr o

bobl yn gynnulledig mewn arwerthfa* gyhoedd ar eiddo mas'nachwr.

Nid oedd awr yr arwerth wedi dyfod, yr oeddynt yn ymddyddan ar ddrygedd yr amserau; ac un o'r gynnulleidfa a alwodd ar hên ŵr, glân, sÿmyl, a gwallt gwÿn, "Da chwi ein Hewythy'r *Shion Cadwaladr*, beth ydych chwi yn ei feddwl am yr amserau? Oni lwyr ddyfethai y trethi trymion hyny y wlad? Pa fodd y byddwn ni yn alluog idd eu talu nhw? Beth a gyngora' chwi i ni? Safodd ein Hewythy'r *Shion Cadwaladr*† ar ei draed, ac a atebodd, os mÿnwch fy nghyngor i, myfi a'i rhoddaf i chwi yn fyr; "canys y mae gair yn ddigon i'r doeth," fel y dywed Rhisiat Druan.

Hwy a unasant gan ddymuned arno i siared ei feddwl, ac yn ymgasglu o'i amgylch, efe a aeth yn ei flaen fel y canlyn: Gyfeillion', eb efe, y mae y trethi yn wir yn drymion iawn; a, phe bae y rheiny a osodwyd gan y Llywo-

* *Public Auction.*

† *Generalissimo.* Ystyr yr enw *Cadwaladr*.

draeth yr unig rai a fyddent i ni eu talu, gallem yn llawer haws eu talu; ond y mae genym lawer o rai ereill, a llawer mwy anhyfryd i rai o honom ni. Trethir ni *ddwywaith* gymmaint gan ein diogi, a *thair* gwaith gymmaint gan ein balchder, a *phedair* gwaith gymmaint gan ein ffolineb; ac oddiwrth y trethi hyn nid eill y dirprwywyr* ein rhÿddâu, neu ein gwared ni trwy ganiatâu gostyngiad. Pa fodd bynnag, gadewch i ni wrando ar gyngor da, a gall rhÿwbeth gael ei wnëyd erddom; “ Mae Duw yn cynnorthwyo y rhai a’u cynnorthwyant eu hunain,” fel y dywed Rhisiat Druan.

I. Meddylid y byddai yn Llywodraeth caled† a drethai y deiliaid y ddegfed ran o’u hamser i wasanaethu yn ei wasanaeth; ond y mae seguryd yn trethu llawer o honom ni lawer mwy; diogi, gan feithrin clefydon, sÿdd yn ddiau yn byrâu bywyd.

* *Commissioners.*

† Dr O. Pughe’s *Dictionary*. Llywodaaeth: *s. m. Government.*

Y mae diogi, fel rhôd, yn difa yn gynt nag y mae llafur yn treulio, tra y mae yr agoriad arferedig bob amser yn loŷw," fel y dywed Rhisiat Druan.

Ond, a wyt ti yn caru dy fywyd? Yna paid a gwastraffu * amser, canys hwnw yw y defnydd sydd yn hwyâu bywyd." fel y dywed Rhisiat Druan.

Pa faint mwy nag sydd angenrheidiol ydym ni yn ei gollu mewn cwsg? "Yn anghofio nad yw y llwŷnog cysglyd yn dàl ieir, hwyaid, na gwŷddau, ac y bŷdd digon o gysgu yn y bêdd," fel y dywed Rhisiat Druan.

Os yw amser o'r holl bethau y gwerthfawroccaf, colli amser a raid fod, fel y dywed Rhisiat Druan, "yr afradlonrwydd mwyaf;" yn gymmaint fel ag y dywed efe i ni mewn rhyw le arall, "Amser colledig ni cheir byth drachefn, a'r hŷn a alwn ni yn ddigon o amser, y mae'n wastadol yn troi allan i fod yn ddigon ychydig."

* Gwell iaith yw *colli* amser, ac y mae yn fwy priodol a'r iaith Gymraeg.

Gadewch i ni gan hyny godi i fynu a gwneuthur, a gwneuthur i'r perwyl ; felly trwŷ ddiwŷdrwydd y bydd i ni wnŷyd mwy gyda llai o ddyrswch. " Y mae diogi yn gwneuthur pob pŷth yn anhawdd ; a'r hwn a gyfyd yn hwŷr, a raid duthio trwy y gweddill o'r diwrnod, a phrin y goddiweddai ei orchwyl cŷn y nŷs : tra y mae diogi yn teithio mor arafaid, fel ag y mae tylodi yn fuan yn ei oddiweddu fe. Gŷr dy orchwyliaeth, na âd i hwnw dy ŷru di :

" A chynnar i wely a chynnar i godi,
Ddug iechyd, doethineb, a chyfoeth gwir iti,"

fel y dywed Rhisiat Druan. Felly, beth a dal dymuno a gobeithio am well amserau ? Nyni a allwn wneuthur yr amserau hyn yn well, os ymegnŷwn ein hunain.

Ni raid i ddiwŷdrwydd obeithio, â'r hwn sŷdd yn byw ar obaith fŷdd farw wrth ymprydio. Nid oes ynnillion heb ofidion ; yna cynnorthwyad dwŷlo, gan na's meddaf dir ;" neu os meddaf y

mae wedi ei drethu yn erwin. “Yr hwn sŷdd yn meddu crefft*, y mae'n meddu etifeddiaeth; a'r hwn sŷdd yn meddu galwedigaeth, y mae yn meddu swŷdd o elw ac anrhydedd,” fel y dywed Rhisiat Druan; ond er hyny rhaid gweithio wrth y grefft, â'r galwedigaeth gael ei iawn ddilyn, neu ni wnai yr etifeddiaeth na'r swŷdd ein galluogi ni i dalu ein trethi. Os ydym ni yn ddiwyd ni newynwn bŷth; “Canys edrych i dŷ y dyn sydd yn gweithio y mae y newyn ond ni feiddia bŷth fyned i mewn.” Na'r ceisbwl † na'r hedd-geidwad ‡ fŷn'd yno, canys tâl diwŷdrwydd ddyledion, pan y mae anobaith yn eu cynnyddu nhw.”

Er na chawsoch ddim trysor, nac i un perthynas cyfoethog adael i chwiswm o arian, “Diwŷdrwydd yw mam llwyddiant, ac y mae Rhagluniaeth yn cynnorthwyo diwŷdrwydd.

“Yna ardd yn ddwfn tra mae'r diog yn cysgu
A thi a gai ŷd i gadw ac i werthu.”

* *Trade.* † *Vulgo, Baili.* ‡ *Constable.*

Gweithiwch tra y gelwir, y dydd heddyw*, canys ni wŷddoch pa gymaint y cewch eich rhwŷstro yfory. “Y mae *un* heddyw yn werth *dau* yfory,” fel y dywed Rhisiat Druan, ac yn mhellach, “Na âdewch hyny bŷth dân yfory yr hyn a ellwch ei wnëyd heddyw.”

Pe baet yn weinidog, oni fyddai arnat ti gywilydd i feistyr da dy ddâl di yn segur? A wŷt ti ynte dy feistyr dy hunan? Bydded cywilydd arnat dy ddâl dy hunan yn segur, pan y mae cymmaint i'w wneuthur drostat dy hun, dy deulu, dy wlad, a'th Frenhines.†

Defnyddia dy offerynau heb ddyrnfolau†: cofiwch, nad yw y gâth a menyg am ei phawenau yn dâl llygod,” fel y dywed Rhisiat Druan. Y mae'n wir fod llawer i'w wneuthyd, ac fe allai eich bod yn fyr o ddwylo; ond daliwch atti hi yn feunyddiol, a chwi a welwch effeithiau mawrion; canys y mae dyfal

* Dyddiau gwaith a feddylid. † *Victoria.*

‡ Menyg heb fysedd iddynt, yn Saesneg, *Gauntlets.*

ddyferiad yn difa cerryg; a chŷd ag amynedd a diwŷdrwydd y llygoden a a ddifâodd drwyddi râff* angor ne's ydoedd hi yn ddwy ddarn, a tharaw-iadau bychain a dorasont i lawr goed derw mawr."

"Meddylwyf fy môd yn clywed rhyw un o honoch yn dywedyd, "Ai ni ddylai dŷn gael iddo eu hun ddim hamdden?" Dywedaf i ti, fy nghyfaill, yr hŷn y mae Rhisiat Druan yn ei ddywedyd, "Defnyddia dy amser yn fuddiol, os wyt yn meddwl caffael hamdden; a chan nad wyt ti yn sicr o funud, na thawl ymaith awr." Seibiant yw amser i wnŷd rhywbeth defnyddiol; y seibiant hwn y dŷn diwyd a fŷn gael, ond ni fedŷr y dŷn diog byth; canys bywyd hamddenol a bywyd o seguryc ydynt ddau beth gwahanol. Llauer heb weithio, a fynnent fyw wrth ei harebion† yn unig, ond y maent hwi yn tòri o ddiffyg nwyfau ‡;" o herwyd y mae diwŷdrwydd yn rhoddi cysur

* *Cable.*† *Wits.*‡ *Stock.*

digonedd, a pharch. “Ffowch oddiwrth bleserau a nhw a’ch canlynant chwi.”

Y mae gan y nyddwraig ddiwỳd hefys * mawr; ac yn awr y mae genyf ddafad a buwch, y mae pawb yn fy nghyfarch gyda, “boreu da i chwi.”

II. Ond efo ein diwỳdrwydd rhaid i ni hefyd fôd yn ddianwadal, sefydledig, a gofalus; ac edrych dros ein gorchwylion ein hunain, a pheidio ymddiried gormod i ereill: gan fel y dywed Rhisiat Druan:—

“Ni welais I, o’u mudo a’u hysgog,
Bren erioed na theulu serchog,
Yn llwyddo megys rhai sefydlog.”

Ac etto, “Y mae *tri* symudiad gan waethed a thân,” ac etto, “Cadw dy fasnachdy†, a’th fasnachdy a’th geidw dithau;” ac etto, “Os mynnwch orphen eich gorchwyl, ewch; os na fynnwch, anfonwch.” A threchefn:—

“Yr hwn a fynno lwyddo oddiwrth aruf,
Rhaid iddo naill ai dâl ai gyru.”

* Crÿs. *A smock, or shift.* † *Shop.* ‡ *Aredig.*

Ac etto, “Gwna llygad y meistyr fwy o waith na’i ddwy law;” ac etto, y mae “diffyg o ofalwch yn gwneuthur i ni fwy o golled na diffyg o wybodaeth;” ac etto, “Peidio ac arolygu gweithwyr, yw gadael iddynt eich amner* yn agored.”

Ymddiried gormod i ofalwch ereill yw dinystyr llawer; canys, yn ngorchwyllion y byd hwn, gwaredir dynion, nid trwy ffydd, ond drwy ddiffygt o honi;” ond gofalwch dyn ei hun sy fuddiol; canys, “Os mynnwch weinidog cywir, ac un a fyddoch yn ei hoffi, — gwasanaethwch eich *hunan*. Gall ychydig o ddiotalwch fagu drwg mawr; o eisiau hoel y bedol a gollwyd; ac o eiseu y bedol y ceffyl a gollwyd; ac o eiseu y ceffyl collwyd y marchogwr; trwy iddo gael ei oddiweddu a’i lâdd gan y gelyn; y cwbl o eiseu ychydig o ofal yn nghylch hoel pedol ceffyl.

* Pwrs, neu Alwar.

† “*In the affairs of this world men are saved, not by faith, but by the want of it.*”

III. “Cymmaint a hÿn fy nghyfeillion am ddiwÿdrwydd, ac ystyriaeth i ein gorchwylion ein hunain ; ond at y rhain rhaid i ni ychwanegu *cynnilddeb*, os mynnwn ni wnÿyd ein diwÿdrwydd yn fwy sicr a llwyddianus. Gall dÿn, os na wÿr efe pa fôdd i gynnilo fel y mae'n ynnill, gadw ei drwyn wrth y maen llifo holl ddyddiau ei einioes, a marw yn y diwedd heb fod yn werth pedair ceiniog. Y mae cegin frâs yn gwnÿyd ewyllys* *teneu* ;”

“Gwèrll llawer ystâd yn ei chael i'w meddiannu,
Er pan am dê gadai wragedd wau a nyddu,
A gwyr i gael cwrw adael hollti a naddu.”

“Os mynnwch fod yn gyfoethog, meddyliwch am *gynnilo* gystal ag *ynnill*.” †

“Ni wnaeth yr India, Yspañ yn gyfoethog, o herwydd bod ei thraul yn fwy na'i mael.”

“Ymaith, gan hyny, gyd a'ch traul-fawr ffolinebau, ac ni fydd ganddoch y

* Llythÿr cymmun, nad oes sôn ynddo am *luser* o eiddo !

† *Earning*.

pryd hyny gymmaint o achos i achwyn ar yr amserau caledion, trethi trymion, a theuluoedd traulfawr ; canys

“ Merched a gwîn, hocced * a chwawriaeth,
A wnai'r eiddo'n llawer llai ysywaeth ! ”

Ac yn mhellach, “ Yr hyn sy'n cynnal un drygioni, a ddyga i fynu ddau o blant.”

Chwi ellwch feddwl, ysgatfydd, nad eill ychydig o dê, neu ychydig o wîn weithiau, ymborthychydig mwygwerthfawr, dilladychydig gwŷchach, a gwledd fechan yr ŵan ac yn y mên, nad allent fôd yn draul-fawr iawn ; ond cofiwch yn awr, “ Bod aml *ychydig* yn gwneuthur *un mawr*.” Gochelwch dreulion *bychain* ; “ Holtt fechan a suddai long fawr,” fel y dywed Rhisiat Druan ; ac etto, “ Y rhai a garent ddanteithion a gaent eu profi'n gardottion ;” ac yn mhellach ; “ Ynfydion sy'n gwnëyd gwleddau, a gwŷr doethion yn eu bwyta.”

* Twŷll. *Deceit, or fraud.*

“Dyma y lle y daethoch chwi i gyd efo eich gilydd i'r arwerthfa hon o wŷchderau a phethau afreidiol.

Yr ydych yn ei galw nhw yn dda; ond, os na chymmerwch ofal, hwy a brofant yn *ddrug* i rai o honoch chwi.

Yr ydych yn dysgwyl y gwerthant hwy yn rhâd, ac, ysgatfydd, y gwnaent am lai nag a gostiasant; ond, os nad oes arnoch eu heisieu nhw, rhaid iddynt fod yn ddrud i chwi.

Cofiwch yr hyn a ddywed Rhisiat Druan, “Prŷn yr hŷn nad oes arnat ei eisieu, a chŷn y bo hŷr dydi a gei werthu dy angenrheidiau.”

A thrachefn, “Wrth geiniog-werth* fawr oeda enyd; meddylia efe, ysgatfydd, mai ymddangosiadol yn unig, ac nad yn ddiaut y mae y newid; neu y gall yr ammod drwy dy gyfyngu di yn dy orchwyl† wnëyd i ti fwy o niwed na daioni.

* *For the sake of euphony it is pronounced in N. Wales, Cŷnegwerth, neu yn Ngwŷnedd er pereiddiach sain.*

† Mewn gwirionedd.

‡ Gorchwyl, *Business*.

Canys mewn lle arall, efe ddywed, "Dyfethwyd llawer trwy brynu ceiniogwerth dda." Drachefn, "Y mae yn ffolineb rhoi arian allan mewn pryniant o edifeirwch;" ac etto arferir y ffolineb hwn bob dŷdd mewn arwerthfeydd, o ddifyg gofâl wch. Llawer un, er mwyn cael pethau gwŷch am y cefn a aeth a'r bôl yn newŷn llyd, ac a hanner newynasant eu teuluoedd;" "Y mae sidanau a phaliau, ysgarlad a melfedau, yn rhoi tân y gegin allan!" fel y dywed Rhisiat Druan. Nid *angenrheidiau* bywyd ydynt: nis gellir prin eu galw yn bethau cyfleus: ac etto er hyny o herwydd eu bod yn ymddangos iddynt yn glysiôn yn unig, pa môr gymmaint sydd ag eisieu eu cael?

Trwy yrhain a gwastraffiadau* ereill, y boneddigion ydynt ddarostyngedig i dylodi, ac yn gorfod benthycu gan y rhai a ddirmygasant gynt, ond y rhai, trwy ddiwydrwydd a chynnilddeb a gadawasant eu sefyllfa; yn y cyflwr

* *Squanderings, or extravagancies.*

hwnw y mae yn ymddangos yn amlwg, fod yr aradwr ar ei draed yn uwch na gwr boneddig ar ei liniâu," fel y dywed Rhisiat Druan.

Ysgatfydd y gadawyd iddynt etifeddiaeth bychan, na wŷbuont hwy ddim am ei gaffaeliad; meddyliant "mai dŷdd ydyw, ac na bydd byth yn nôs:" ag i ychydig o gymmaint a hyny gael ei wario nad yw yn deilwng o sylw; ond "Cymmeryd allan bob amser o gwd y blawd, heb roi ynddo deuir yn fuan i'w waelod," fel y dywed Rhisiat Druan; a'r prŷd hyny, "Pan fŷdd y ffynnon yn hesp, gwŷddant werth dŵr." Ond gallasant wŷbod hŷn o'r blaen, pe y cymmerasant ei gyngor ef. "Os mŷnwch wŷbod gwerth arian* ewch a cheis-iwch fenthycca rhyw-faint; canys yr hwn sŷdd yn myned i fenthycca, mae'n myned ar un o'r negesau gwaetha," fel y dywed Rhisiat Druan; ac yn wir felly y mae efe sŷdd yn rhoddi benthyg i'r fath bobl, pan yr elo efe i'w nhŷl.

* Y gair cyffredinol yn lle mwnei (*money.*)

Y mae Dic Druan yn cyngori y'mhell-ach, a dywed,

“ Ffôl falchder gwisg sy' ddiau rêg yn bod,
Cyn fyth ystyried trws*, ystyria 'th gôd.” †

A thrachefn, mae balchder yn crefu mor uchel a thaer a chardottyn mewn eisieu, a llawer mwy haerllug.” ‡

Pan brynoch un peth gwŷch, rhaid i chwi brÿnu deg ychwaneg fel y bo eich ymddangosiad oll yn fwy cymhwys ; ond dywed Dic Druan, “ Y mae'n haws darostwng y dymuniad cyntaf, na boddloni y cwbl a'i canlynai.” Ac y mae'n wir yn gymmaint ffolineb i'r ty-lodion ddynwarded y cyfoethogion, ag ydyw i'r llyffant ymchwyddo i gyfartalu a'r eidion.

“ Geill llestri mawrion anturio'n mhell yn wir,
Ond dylai badau || bychain ymgadw wrth y tir.”

Y mae pa fodd bynnag, yn ffolineb a gospir yn fuan ; canÿs, fel y dywed Rhisiat Druan, “ Balchder yr hwn sy'n

* Gwisg, *Dress*.

† Côd, *Purse*.

‡ Difywilydd, *Shameless*, or *importunate*.

|| Cychod, *Boats*.

ciniawa ar oferedd, a gwynosa* ar ddirmÿg. †

Tòrym prydia † Balchder gÿda Hel-aethr wÿdd, ciniawodd gyda Thylodi, ac a gwynosodd gyda Gwarth." Ac, wedi y cwbl, o ba wasanaeth yw y balchder hwn o ymddangosiad, am yr hÿn yr anturiant gymmaint, a chymmaint sÿ'n goddef?

Ni's gall gynnyddu iechyd, nag esmwythâu poen; nid yw yn 'chwanegu dim teilyngdod yn unrhyw un, y mae'n creü cenfigen, y mae'n prysuro anffawd.

Ond, y fath ynfydrwydd a raid ei fôd i redeg mewn dyled am yr arddigoneddau || hÿn? Cynnygir i ni, gan ammodau yr arwerth hwn, chwe' mîs o goel §; a hyny ysgatfÿdd a dueddodd rai o honom ni i ddyfod yma, oblegid na's gallwn ni doli ¶ yr arian parod, ac yn gobeithio yr wan** bod yn wÿchion hebddynt. (Heb yr arian parod a

* Swppera, *Sup.*

† Dirmÿg, *Contempt.*

‡ *Breakfasted.*

|| *Superfluities.*

§ *Credit.*

¶ *Vulgo, Spario.*

** *Yn awr.*

feddylir.) Ond, och! meddyliwch, beth ydych yn ei wneyd pan y byddoch yn rhedeg mewn dyled; yr ydych yn rhoddi i arall allu i gyfyngu eich rhyddid.

Os na fedrwch dalu yn yr amser, bydd arnoch gywilydd gweled eich gofynwr; byddwch mewn ofn pan y siaradoch ag ef; chwi wnewch esgusion gwaelion, distadl a thruenus, ac yn raddol, chwi a gollwch eich geirwiredd, a suddo mewn gwael ac amlwg gelwyddau; oblegid, "Yr ail ddrwg yw dywedyd anwiredd, y cyntaf yw rhedeg mewn dyled;" fel y dywed Rhisiart Druan; a thrachefn, i'r un perwyl, "Y mae anwiredd yn marchogaeth ar gefn dyled;" gan na ddylai un Cymro breiniol* fod a chywilydd arno siared ag un-dyn byw. Ond y mae tylodi yn aml yn anfuddio dyn o'i holl fywiogrwydd a'i rinwedd. Y mae'n anhawdd i gwâd gwâg sefyll yn sŷth."

Bêth a feddyliech chwi am y tywysog hwnw, neu am y llywodraeth hwnw, y

* *A Free-born Welshman.*

rhai a gyhoeddai ddeddf*, gan eich gwahardd chwi i wisgo dillad fel gwr boneddig neu ferch foneddig, dân boen o garchariad neu gaeth-wasanaeth? Oni ddywedech chwi eich bôd yn bobl ryddion†, a chanddoch hawl a breintiau i wisgo fel y gwelych yn dda, a bod y fath archiad yn greulon? Ac etto yr ydych o gŷlch rhoddi eich hunain o dân y fath orthrymder, pan yr ydych yn rhedeg, mewn dyled am y fâth wisg!

Y mae gan eich gofŷnydd awdurdod, pan y gwel efe yn dda, i eich amddifadu o'ch rhyddid, drwy eich caethiwo chwi mewn carchar dros hir amser‡ neu drwy eich gwerthu i fod yn gaethwas, os na byddwch yn alluog i dalu iddo fe. Pan yr ydych wedi cael eich cyttundeb|| gellwch chwi feddwl, ond ychydig ysgatfŷdd am y taledigaeth; ond, fel y dywed Rhisiat Druan, "Y mae gan ofynwyr well côf na dyledwyr; y

* Cyfraith.

† Breiniol, *Free*.

‡ Dros eich einioes mewn rhai gwledŷdd, neu, i eich gwerthu i estron!

|| Vulgo, Bargian.

mae gofynwyr yn blaid goelgrefyddol iawn, ac yn gwilied, a meddwl am amserau a dyddiau neillduol." Y mae y diwrnod yn dyfod oddiamgylch cŷn i chwi wŷbod, ac y gofyniad yn cael ei wnëyd cŷn i chwi fod yn barod i'w foddloni fô ; neu, os cadwch eich dyled mewn côf, yr ammod, yr hon ar y cyn- taf oedd yn ymddangos mor hir, a fŷdd fel y lleiâa, yn ymddangos yn rhyfeddol o fêr. Amser* a ymddengys iddo ychwanegu adenydd i'w sodlau cystal ag i'w ysgwŷddau. Grawys byr sŷdd i y rhai hyny ag y mae arnynt arian i eu talu erbyn y Pasc."

Yn awr, ysgatfydd, chwi ellwch feddwl eich hunain mewn amgylchiadau cynnyddol, ac y gellwch fforddio ychydig o afrad heb niwed ; ond

" Erbyn henaint a rhaid cynnila tra gellych,
Ni phery drwy'r dydd haul boreu dysgleirwych."

Gall elw fôd yn ansicr ac am amser ond byth tra y byddoch byw, tra

* *Father Time.*

sŷ sicr a pharâus; ac “Y mae yn haws adeiladu dwy simdde*, na chadw un a thànwydd,” fel y dywed Rhisiat Druan; felly, “Yn hytrach ewch i eich gwely heb eich cwynost, na chodi mewn dyled: —

“Cymmer a ellych a dâl a gai bob dydd,
Dyna yw'r maen dy blwm yn aur a drydd.”

A phan y caffoch eurfaen † yr athronydd, diâu ni wnewch achwyn ychwaneg ar yr amserau drwg, neu yr anhawsder o dalu trethi.

IV. Y mae yr athrawiaeth hwn fy nghyfeillion, yn rheswm a doethineb; ond, ar ôl y cwbl, na wnewch ymddibynnu gormod ar eich diwÿdrwydd eich hunain, cynnildeb, a'ch callineb, er eu bôd yn bethau rhagorol; canys gallent oll gael eu mallu heb fendith y Nêf; a chan hyny, gofynwch yn os-tyngedig, am y fendith hòno, ac na fyddwch yn annhyner wrth y rhai sydd

* Sawell, neu dwll y mwg. † Swpper.

‡ Maen a drŷ bob peth yn aur meddant hwy!

yn ymddangos i fôd mewn eisieu o honi, ond cysurwch a chynnorthwywch nhw. Cofiwch, i Job oddef, a bu wedi hyny yn llwyddiannus.

Ac yn awr, i ddiweddu, “Y mae prawf* yn cadw athrofa† ddrud, ond ni ddÿsg ynyfydion mewn un arall,” fel y dywed Rhisiat Druan, a phrin yn hono; canys y mae yn wîr, “Nyni a allwn roddi cyngor, ond ni’s gallwn roddi ymarweddiad.”‡ Pa fôdd bynag, cofiwch hÿn, “Y rhai na’s mÿnant eu cyngori ni’s gellir eu diwallu;” ac yn mhellach, os na wrandewch ar reswm, diau y bydd yn edifar ganddoch,” fel y dywed Rhisiat Druan. Yn y môdd yna yr hên wr boneddig a orphenodd ei araith,—clywodd y bobl hi, a chymmeradwyasent yr athrawiaeth, ac yn ddigyfrwng a arferasent y gwrthwyneb, yn inion fel pe y buasai bregeth gyffredin; oblegid dechreuodd yr arwerthiant||, a hwy a ddechreuasent brÿnu yn

* *Experience.*

‡ Buchedd dda.

† *An Academy, Ysgol.*

|| *Vendition.*

afradlon. Deallais fod y gwr da wedi llwyr fyfyrion fy amseroniau*, ac amgyffred y cwbl a grybwyllais ar y testynau hyny, dros ystod pum' mlynedd ar hugain. Yr aml grybwylliad a wnaeth am danaf fi a fuasai yn blino un-dyn arall; ond yr oedd fy ngorwagedd i yn cael ei foddâu yn rhyfeddol gyda fe, er fy môd i yn gydwybodus nad oedd y ddegfed ran o'r doethineb o'm heiddo i, yr hyn a gyfrifa efe i mi; ond, yn hytrach, y lloffion a wneis i o synwyrâu llawer o oesoedd a chenhedloedd.

Pa fodd bynnag, llwyr fwriedais i fuddioli oddiwrth ei adsaint†; ac er fy môd yn y dechreuad wedi penderfynu i brynu defnydd pais‡ newydd, mi eithum i ffordd gan lwyr fwriadu gwisgo fy hên un ychydig yn hwy.

Ddarllenydd, os gwnei di yr un môdd, bydd dy fudd di gymmaint a'm budd innau. Ydwyf fel erioed dy eiddo i'th wasanaethu di.

RICHARD SAUNDERS.

* Almanacau.

† Echo.

‡ Coat.

LLAWN rhâd ar waith *Llwynrhudol*,— yn trosi
 Trysor angenrheidiol,
 I'n iaith lwys, dda 'i phwys, ddiffol,
 Baich o addysg bucheddol.

Buchedd réol a roes,— er addysg,
 I rwyddaw trefn einioes;
 Cwyd i'r iawn, ceidw yr oes,
 Rhag ynyd fai rheg anfoes.

Anfoes yr einioes a rydd — anghenion,
 Y 'nghiniaw 'r gwastraffydd;
 Gorau fo, y gwr a fydd,
 Ganolig o gynnilydd.

Cynnilydd dedwydd y dyn,— a wnelo
 Yn ol hyn o lyfryn;
 Rhydd wers dda, er gwella gwŷn
 Gorfrydig yr afradyn. IAGO TRI-CHRUG.

Aeth y tri englyn yn bedwar, o'r fath ag ydynt; er gwnëyd i fynu mewn *rhif*, am ragoriaeth Eryron Gwyllt Walia mewn *sylwedd a barddoniaeth*: os byddant oll, neu rai o honynt, yn boddloni *Llwynrhudol*, wele hwy at ei wasanaeth ef; a mawr lwydd iddo gyda ei lyfr bach, a chyda phob anturiaeth daionus arall a gymmero mewn llaw, medd,

Yr eiddo yn ddiffuant,
 JAMES HUGHES.

I Mr. Thomas Roberts, Mai 10, 1839.

Y MODD I

WNEYD LLAWER O YCHYDIG,

Yn ddifrifol gyfarchedig at y Tylodion Diwyd.

GAN B. SHORT.

Y DYN tylawd yr hwn a *rostio* neu a *olosgo** ei gîg a gÿll ei hanner yn y tân.

Y dyn tylawd yr hwn a'i *berwa* sy'n colli llawer yn y dwr. Y dyn tylawd sydd yn ei droi yn isgell† gydag ychydig o beillied, blawd-ceirch, *reis*, neu bÿs, yn ôl eu gwerth, bÿdd eisieu llai o fara, ac a gae gymmaint ddwywaith am ei arian.

Llysiâu, megis *moron cochion*, *bwydlysiâu*‡, *maip*||, ac ychydig o *fresych*§, a *winwyn*¶, ac yn enwedig *cenin*** os yn gyntaf y ffreir nhw mewn ychydig o frasder yr isgell ne's y byddont yn o

* *Broil.* † *Broth.* ‡ *Celery.* || *Erfin.*
§ *Bresych, Cabbages.* ¶ *Onions.* ** *Leeks.*

gwrn*, ac wedi hyny eu berwi ynddo, a wnaent wlêdd frâs am ychydig o draul.

*Winwyn*t ydynt y llysiâu goreu. Yr oedd yr Aifftiaid eilun-addolgar yn eu haddoli nhw; gwell eu haddoli *nhw* na *chostreli* o *Gin*!

Y mae y tylodion bob amser sydd yn pryny yn y farchnad agored yn cael y geiniogwerth oreu; ac y mae pethau yn gyffredin bob amser yn rha'tach yn niwedd y diwrnod.

Pan fydd pobl onest wedi gorphen eu gwaith, gwell iddynt fyned i'r *farchnad* nag i'r *tafarndy*.†

Geill y tylodion sy'n prynu ar goel weithiau ddysgwyl cael eu *twyllo*; oblegid fod gormod o'r masgnachwyr yn meddwl eu bod yn bwriadu eu *twyllo* nhw; gan hyny y maent yn ceisio bod o flaenllaw gyda nhw. Y geiniog *barod* bob amser sydd yn cael y farchnad oreu.

Y rhai na fedrant brin eu cadw eu

* Gwinau, *Brown*.

† *Plural of an Onion. Sing. Winwynnyn.*

‡ *Tŷ-cwrw.*

hunain neu blentyn, ni ddylent byth gadw *ci*.

Gwenwyn ydyw *Gin*, yr hwn sydd yn ei yfed mae yn rhoddi iddo ei hun ysbrydoedd gau dros amser, ond y mae yn braenu* ei iaŵt yr un prŷd.

Os nad yw *dysdyllydd Gin* y gelyn mwyaf i'r bobl gyffredin, *yfwr Gin* yw y gelyn mwyaf iddo ei hun a'i deulu.

Mae gwerth ceiniog o *isgell*, *llaeth*, neu hyd yn oed *blawd a dwr* wedi ei ferwi, neu *gwrw* i ddyn sy'n gweithio yn galed yn y boreu, y mae'n werth swllt o *dé*.

Os yw *tê* yn dda i y rhai sydd yn bwyta gormod, y mae yn ddinystyr i y rhai sydd yn bwyta ond *ychedig*. Gadewch i'r tylodion gael hanner y draul at *gwrw* ag y maent at *dé*, a hwy a fyddent yn alluog i wnëyd cymmaint arall o waith.

Nid oedd *tê* a sugyr† un amser yn

* *Rot*, or *putrify*.

† *Liver*.

‡ Sugyr yw iawn enw y peth a elwir yn gyffredin *Siogwr*, canys sug, neu sudd ydyw. *Juice* or *sap* yn Saesneg neu *Sugar*.

cael eu defnyddio yn gyffredinol hŷd oni y *ddeunawfed* gan'rif; er's pan ddaeth y tylodion i yfed *té*, eu hanner a anghenwyd ac a newynwyd.

Yr achwyniad *cyffredinol* yw, y mae yr *amserau* yn *galed*! Pa'm ynte y gwneir nhw *etto* yn *galedtach*?

Dyn *da* mewn *amserau* *drwg*, a fydd fyw ddeg gwaith *gwell*, na'r dyn *drwg* mewn *amserau* *da*.

Nyni a ddywedwn yn fynych, *y mae y trethi yn drymion*! Geill hyny fod yn wir; ond gan bwy yr ydym yn cael ein trethu fwyaf?

Gadewch i ddynd gyfrif, os nad oes llawer yn cael eu trethu gymmaint *ddwy waith* gan eu ffolineb, *tair* gwaith gymmaint gan eu meddwdod, a *phedair* gwaith cymmaint gan eu diogi, nag y maent gan y Llywodraeth; a'r prŷd hyny bydded iddynt ddywedŷd a oes ganddynt hawl i achwyn, oblegid y mae'r esgid yn gwasgu pan ei gwnaethent ar eu pren-troed *eu hunain*.

Gadewch i y tylodion wneuthur daŷoni iddynt eu hunain gartref, a'r

pryd hyny hwy a gaent fudd drwy fod gartref.

Y mae yn ddiareb gywir fod "Duw yn cynnorthwyo y rhai a gynnorthwyant eu hunain."

"Na chwennych gyfoeth sy'n llygadtynu dyn,
Boddlonrwydd wna'n gyfoethog dlawd ei lun."

Diwýdrwyddd a wna i ddyn amner*, a Chynnilddeb a rýdd llynau iddo. Ni chýst yr amner iddo efe ddim.

Y rhai a'i meddiant, ni wnaent ond yn unig dynnu y llynau fel y cyfeiria cynnildeb, ac a gaent bob amser geiniog ddefnyddiol yn ei waelod o.

Adnabyddir gweinidogion diwýdrwydd wrth ei gosgordd-wisg †; y mae hi bob amser yn lân ac yn iachus; edrychwch ar y bratiog a chaethion budron diogi, ac yna gofynwch pwy sydd yn gwasanaethu y meistýr goreu?

Gwna ofn Duw i ddyn feddwl yn dda a gweithredu yn dda; a phan y byddo arno eisieu, Duw a ddarboda iddo efe gyfail.

* Pwrs neu alwar.

† *Livery.*

Y dyn a chwardd gyda chwi y' nghylch ofn Duw, ydyw eich gelyn gwaethaf, ac a ddysga i chwi fod yn elyn i chwi eich hunan hefyd.

Gochelwch y cyfryw.

COFIWCH MAL PECHOD YW Y DRWG MWYAF; IECHYDWRIAETH TRWY IESU GRIST Y DAIONI MWYAF; A GRAS I NEWID Y GALON, Y TRYSOR GWERTHFAWROCCAF DYN TYLAWD.


Yna gadewch i'r dyn tylawd fyned i'r farchnad rattaf ar y Sadwrn; i'r lle addoliad hwnw lle y caffo efe y cyngor goreu ar ddŷdd Sul; a myned fel dyn gonest at ei waith ar ddŷdd Llun; a dilyn y rheolau symyl hyn, efe a fŷdd yn ddedwydd ddwŷwaith drosodd; dedwydd mewn amser, a dedwydd dros holl dragywyddoldeb.

B. SHORT.

DIWEDD.

LLUNDAIN:

Argraffwyd gan A. SPOTTISWOODE,
New-Street-Square.



ENGLYNION

GŀAN Y PARC. JAMES HUGHES.

Llawr iŵd ai waith *Lloegyrhuddol*, — yn troed
 Teymwr awgwrthuddol,
 I'n iaith bys, dda 'i ylwys, ddiŵol,
 Hwch o addug huchuddol.

Hondodd eol a rym, — sy addug,
 I gwyddaw trefn unnes;
 Ceryd 'e lawr, celdw yr oes,
 Rhag ynyf iai rhog unnes.

Arlaw yr eithos a rhyd — awgwrthol,
 Y 'aphuraw'r gwawrlydd;
 Gwrao fo, y gwr a fydd,
 Gmsolig o gynnydd.

Cynnydd ddaŵydd y dyo, — a wneid
 Yn al hyn n lylryn;
 Hlydd wera dda, or gwella gwyn
 Gwefrydd y afredyn.

JAMES THOMAS.

Audi y lai awgwrthol yn huchaw, or fath ag rhyngol
 gwelydd a' gwr. mawr ydŵ, am rhyngol. Erymwr Gwelydd
 Wella mawr rhyngol a huchawmawr. or huchawmawr, or
 rhyngol yn huchawmawr. Lloegyrhuddol, wella huchaw
 or huchawmawr. a' mawr rhyngol huchawmawr. or huchaw
 mawr huchawmawr. huchawmawr huchawmawr huchawmawr.

Yr iaith yn ddiŵol.

JAMES THOMAS.





the **3 2044 024 060 949** to
stamped below.

A fine of five cents a day is incurred
by retaining it beyond the specified
time.

Please return promptly.

